



## **CABINET**

### **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 4YDD HYDREF 2017 AM 2.00 P.M.**

---

#### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

T. McMahon (Rheolwraig Adfywio Cymunedol), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), C. Campbell (Rheolwr Peirianeg Cludiant) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

#### **1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Mrs P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad),

#### **2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr L. Phipps ac E. Stenner (Eitem 4 - Dileu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol, Cynigion ar gyfer Blaenoriaethau Diwygiedig Llywodraeth Cymru ac Ailstrwythuro Staff Cysylltiedig). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

#### **3. CABINET - 20FED MEDI, 2017**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2017 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## **MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

### **4. DILEU CYMUNEDAU YN GYNTAF YN RADDOL, CYNIGION AR GYFER BLAENORIAETHAU DIWYGIEDIG LLYWODRAETH CYMRU AC AIL-STRWYTHURO STAFF CYSYLLTIEDIG**

Datganodd y Cynghorwyr L. Phipps ac E. Stenner ddiddordeb yn yr eitem hon fel Cyfarwyddwyr Gwirfoddol o Ganolfannau Adnoddau a nodwyd yn yr adroddiad, ac felly gadawsant y cyfarfod yn ystod ei ystyriaeth.

Amlinellodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 19eg Medi, 2017, i ddileu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a gweithrediad arfaethedig y Gronfa Etifeddiaeth a Chyflogaeth, ynghyd â chyfnod ailstrwythuro a recriwtio adrannol arfaethedig a fydd yn caniatáu trosglwyddiad di-dor i flaenoriaethau diwygiedig Llywodraeth Cymru (LIC) a'r cyllid cysylltiedig. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a yw'r cynigion a nodir yn yr adroddiad yn briodol ac yn effeithiol yn erbyn y meini prawf ariannu a pholisi a gynigir gan LIC, a gofynnwyd am eu barn ar y dull o ddileu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a'r dull arfaethedig ar gyfer y rhaglen newydd, y cerrig milltir a'r strwythur staff cysylltiedig, cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet i'w ystyried.

Amlinellodd y swyddogion gefndir y rhaglen a'r strwythur staff presennol, ac roedd manylion amdanynt yn yr adroddiad a'i atodiadau. Ers 1af Ebrill 2012, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn Rhaglen Trechu Tlodi sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned, gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ariennir y rhaglen gan LIC ac mae ganddo gyllideb flynyddol o £2.902miliwn. Ar 14eg Chwefror 2017, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid, cadarnhawyd y byddai Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddileu'n raddol rhwng 31ain Mawrth 2017 a 1af Ebrill 2018, a bydd y cyllid hwnnw'n parhau i fod yn 70% o lefelau 2016/17 hyd at 31ain Mawrth 2018.

Eglurwyd y bwriedir i 2017/18 fod yn gyfnod pontio sy'n sicrhau etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf wrth symud i ddull newydd o greu cymunedau cryf. Yn ganolog i'r dull hwn fydd y "Tair E" (cyflogadwyedd, grymuso a blynyddoedd cynnar). Bydd angen ailstrwythuriad llawn o'r Tîm Adfywio Cymunedol er mwyn parhau i gyflwyno rhaglenni Cymunedau am Waith ac Esgyn, yn ogystal â gweithredu mentrau newydd Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael eu hariannu o 1af Ebrill 2018. Esboniwyd y Gronfa Gymorth Cyflogaeth a'r Gronfa Etifeddol (sy'n olynwyr i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli eisoes) yn fanylach trwy gydol yr adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau hefyd am effaith bosibl y newidiadau hyn ar sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cyfrannu at ariannu nifer o swyddi ar draws Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG), Groundwork Caerffili a Chanolfan Galw Heibio i Bobl Ifanc Senghenydd, a bydd gostyngiad yn y cyllid cyfredol yn debygol o gael effaith fawr ar bartneriaid sector gwirfoddol y Cyngor. Yn ogystal, o'r 1af Ebrill 2018, dim ond Awdurdodau Lleol fydd yn derbyn y Cronfeydd Etifeddol a Chymorth Cyflogaeth newydd.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a mynegodd bryderon am rai o'r prosiectau y gellid eu colli o ganlyniad i ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf. Esboniodd y Swyddog, mewn meysydd blaenoriaeth a nodwyd ym Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru, y gall rhai o'r prosiectau barhau. Mae gwaith ar y gweill gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Bwrdd Iechyd i nodi prosiectau a chyllid posibl i sicrhau eu bod yn parhau. Sicrhawyd yr Aelodau y byddent yn cael eu diweddarau ar ddatblygiadau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion i

gymeradwyo dileu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol, a'r rhaglenni newydd, cerrig milltir a strwythur staff cysylltiedig.

## **5. MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG TEITHIO LLESOL**

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 19eg Medi 2017, yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau ar y Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol drafft ac yn adrodd ymatebion gan yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Esboniodd swyddogion bod y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol (ALI) yng Nghymru i gynhyrchu a chyhoeddi mapiau teithio llesol, gyda'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu Map Lwybrau Presennol. Cymeradwywyd Map Llwybrau Presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2016. Mae'r cam nesaf yn ei gwneud yn angenrheidiol i bob ALI yng Nghymru i gynhyrchu Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol erbyn Tachwedd 2017. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar Fap Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Caerffili drafft ac o'r 121 ymateb a dderbyniwyd i'r holiadur, dywedodd 98% eu bod yn cefnogi'r llwybrau arfaethedig a gynhwysir yn y Map Rhwydwaith Integredig drafft. Atodwyd manylion o'r sylwadau a roddwyd fel ymatebion i'r adroddiad. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae nifer o newidiadau arfaethedig i'r Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol a fydd yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (a restrir yn Atodiad 3) erbyn y dyddiad cau ar 3ydd Tachwedd 2017.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, i gymeradwyo'r Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol drafft a'r newidiadau arfaethedig a atodwyd i'r adroddiad.

## **ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

## **6. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2016/17**

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am Hunanasesiad Blynyddol yr Awdurdod o'r enw Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 a gofynnodd am farn a chymeradwyaeth y Cabinet cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10fed Hydref 2017 a'i gyhoeddi erbyn 30ain Hydref 2017.

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn rhan bwysig o Fframwaith Perfformiad y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor i asesu ei berfformiad ei hun a darparu darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd.

Yn ogystal, rhaid i'r adroddiad ddangos sut y perfformiodd y cyngor yn erbyn yr Amcanion Lles a osododd ar gyfer ei hunan ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos sut y perfformiodd y Cyngor yn erbyn ei wyth blaenoriaeth a oedd yn weithredol rhwng 2013 a 2017 ac maent bellach wedi dod i ddiwedd eu hamserlen gyhoeddedig.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac wrth nodi'r heriau ariannol sydd o'n blaenau, gofynnodd am wybodaeth bellach am ba newidiadau, os oes unrhyw newidiadau a sut y byddai perfformiad yn cael ei fesur. Esboniodd y swyddogion fod mesurau a thargedau Perfformiad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, fodd bynnag, nid oes cynlluniau i newid y prosesau cyfredol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwyd bod pob Awdurdod Lleol yn teimlo'r pwysau o ran yr heriau ariannol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion i argymhell i'r Cyngor i gymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynnyddol 2016/17.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.37 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Hydref, 2017.

---

CADEIRYDD